Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN ADRODDIAD / CRYNODEB PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – DL067**

**Amseru: Brys – Cyn cwblhau'r cyfrifon statudol drafft ar gyfer 2017/18.**

**Teitl: Polisïau Cyfrifyddu**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Bydd Datganiad o Gyfrifon 2017/18 yn crynhoi trafodion y Prif Gwnstabl, y Comisiynydd a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a'i sefyllfa yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Cynhwysir y Polisïau Cyfrifyddu ym mhob Datganiad o Gyfrifon a nhw yw'r arferion, rheolau, confensiynau, seiliau ac egwyddorion penodol a weithredir wrth baratoi a chyflwyno'r datganiadau ariannol. Fe'u cynhwysir er mwyn darparu esboniad llawnach a disgrifiad o ffigurau penodol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y darllenydd o'r cyfrifon.

Cyflwynir Datganiadau o Gyfrifon Drafft 2017/18 i Aelodau ddiwedd Mehefin, ac mae'r Polisïau Cyfrifyddu drafft hyn wedi'u paratoi cyn hynny, yn ôl cais yr Aelodau, er mwyn rhoi cyfle i adolygu ac ystyried yr elfen hon o'r Datganiadau o Gyfrifon yn gynt.

Rhain yw'r Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon Grŵp. Dim ond y polisïau perthnasol fydd yn cael eu tynnu o'r Polisïau Cyfrifyddu Grŵp Drafft i'w cynnwys yn Natganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl.

Does dim newidiadau statudol sy'n effeithio ar y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y polisïau cyfrifyddu drafft ar gyfer 2017/18, ond cynigir y dylid dileu'r polisi ar gyfer Mentrau Ariannu Preifat a Chytundebau Tebyg gan nad yw hyn yn berthnasol mwyach ar gyfer cyfnod y Datganiad o Gyfrifon a blynyddoedd cymharol.

**Eiddo, Peiriannau ac Offer** – Bu rhai diwygiadau mân i hyn er mwyn adlewyrchu'r seiliau mesur a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer y categorïau asedau amrywiol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf fuddiant personol neu niweidiol yn y mater hwn, ac rwyf yn dod i'r penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 10 Mai 2018**